IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 127

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Gorffennaf 2026* |
| *Yn dod i rym* | *13 Gorffennaf 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Gorffennaf 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 127

# ROAD TRAFFIC

## The A55 Trunk Road (Conwy Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 July 2026* |
| *Coming into force* | *13 July 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Conwy Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2026 and this Order comes into force on 13 July 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c .32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol, neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 13 Gorffennaf 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 12, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd—

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds, or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A55 Chester to Bangor trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 19:30 hours on 13 July 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

## Prohibitions and restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the eastbound or westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.**—(1) Whilst movement is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway but pursuant to article 12 not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to—

(i) proceed in the offside lane of the westbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than eastwards;

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 12, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd—

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr neu 3.7 metr o led neu'n fwy ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

**11.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**12.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd

(ii) proceed in any direction other than eastwards through either of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(2) Whilst movement is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway but pursuant to article 12 not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to—

(i) proceed in the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than westwards;

(ii) proceed in any direction other than westwards through either of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

**7.** No person may, during the works period, drive any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

**8.** No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres or 3.7 metres on the lengths of the trunk road specified in Schedule 6 to this Order.

**9.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in Schedule 7 to this Order.

**10.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 7 to this Order.

**11.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**Application**

**12.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 apply only at such times

arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**13.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**14.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Gorffennaf 2026

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

**Suspension**

**13.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 4 and 5 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6 and 7 are in operation.

**Duration of this Order**

**14.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 8 July 2026

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 297 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy hyd at bwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy.

## SCHEDULE 1
## Contraflow

The length of the trunk road that extends from a point 297 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel to a point 446 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel.

## ATODLEN 2
## Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 202 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy a phwynt 297 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 353 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy a phwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

## SCHEDULE 2
## Limits of the central reserve gaps

The gap in the central reservation situated between a point 202 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel and a point 297 metres east of that portal.

The gap in the central reservation situated between a point 353 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel and a point 446 metres west of that portal.

## ATODLEN 3
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy) hyd at ganolbwynt Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno), gan gynnwys y darnau o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at ganolbwynt trosbont Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy), gan gynnwys y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17.

## SCHEDULE 3
**Temporary prohibition of vehicles**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) to the centre-point of Junction 18 (Llandudno Junction Interchange), including the lengths of the eastbound entry slip road at Junction 17 and eastbound exit slip road at Junction 18.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to the centre-point of the Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) over-bridge, including the lengths of the westbound entry slip road at Junction 18 and westbound exit slip road at Junction 17.

## ATODLEN 4
**Terfyn cflymder o 40 mya dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables hyd at bwynt 191 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue hyd at bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol fel y'u diffinnir yn Atodlen 2.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain hyd at ganolbwynt trosbont Brompton Avenue.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy), Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) a Chyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy).

## SCHEDULE 4
**Temporary 40 mph speed limit**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge to a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach eastbound headland tunnel.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Brompton Avenue over-bridge to a point 787 meters east of the eastern portal of the Penmaenbach eastbound headland tunnel, including the central reserve gaps as defined in Schedule 2.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach eastbound headland tunnel to the centre-point of Brompton Avenue over-bridge.

The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 17 (Conwy Morfa Interchange), Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) and Junction 19 (Glan Conwy Interchange).

## ATODLEN 5
**Terfyn cyflymder o 50 mya dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

## SCHEDULE 5
**Temporary 50 mph speed limit**

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Brompton Avenue over-bridge to the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

## ATODLEN 6
## Cyfyngu ar led cerbydau

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), gan gynnwys y ffyrdd ymuno wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy) a Chyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) a Chyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy).

## ATODLEN 7
## Gwahardd beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A547 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.

## SCHEDULE 6
## Vehicle width restriction

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 19 (Black Cat Interchange), including the entry slip roads at Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) and Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 19 (Black Cat Interchange) to a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip roads at Junction 19 (Black Cat Interchange), Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) and Junction 17 (Conwy Morfa Interchange).

## SCHEDULE 7
## Temporary prohibition of cyclists and pedestrians

The length of the cycleway/footpath that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the length of cycleway/footpath adjacent to the Junction 17 eastbound exit slip road, to its abutment with the A547 at the end of that slip road.